OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 544

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017

## RHAN 11

## Dirymu a diwygiad canlyniadol

### Darpariaethau dirymu, darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed

**53.**—(1) Mae'r offerynnau a restrir yng ngholofn (1) o Atodlen 4 wedi eu dirymu i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru i'r graddau a nodir yng ngholofn (3), yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3).

(2) Mae'r offerynnau a restrir yng ngholofn (1) o Atodlen 4 yn parhau i fod yn gymwys i apelau, ac eithrio apelau gorfodi, pan wneir yr apêl mewn perthynas â chais a wnaed cyn y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(3) Mae'r offerynnau a restrir yng ngholofn (1) o Atodlen 4 yn parhau i fod yn gymwys i apelau gorfodi pan wneir yr apêl mewn perthynas â hysbysiad gorfodi a ddyroddwyd cyn y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

### Diwygiad canlyniadol

**54.**—(1) Mae Gorchymyn 2012 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2, yn yr Hysbysiad o dan Erthygl 10 o Gais am Ganiatâd Cynllunio, yn lle "Rhan 1 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2015" rhodder "Rhan 3 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017".